# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Laffan Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 4 Mehefin 2018

Dyddiad cyhoeddi: 5 Medi 2018

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-78937-601-2

© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

Ansawdd profiad y claf ........ 9

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 14

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 22

4. Beth nesaf? ........ 25

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 26

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad . 27

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 28

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 29

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Laffan Dental Care yn 205–207 Stryd Fawr, Coed-duon, NP12 1AA, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 4 Mehefin 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ynghylch sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y staff yn Laffan Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar gleifion ac, yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn ymddwyn yn gyfeillgar ac yn broffesiynol tuag at gleifion.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda, ac roedd gan y practis y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith er mwyn cefnogi'r practis, y cleifion a'r staff. Fodd bynnag, mae angen i'r practis sicrhau ei fod yn cadw ffeiliau staff cynhwysfawr ac yn cofnodi cyfarfodydd staff ac arfarniadau staff.

Mae angen i'r practis sicrhau bod staff yn dilyn y cyfarwyddiadau wrth lanhau a sterileiddio offer a gwisgo cyfarpar diogelu personol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd caredig a chwrtais.
- Roedd y practis yn annog adborth gan gleifion
- Roedd gan y practis amrediad da o bolisïau a gweithdrefnau ar waith
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r holl staff clinigol gael hyfforddiant cyfredol sy'n berthnasol i'w rôl
- Cynnal asesiad iechyd a diogelwch llawn o ran mynediad at gofnodion clinigol ar bapur
- Sicrhau y dilynir y cyfarwyddiadau wrth lanhau a sterileiddio offer, gan gynnwys yr angen i staff wisgo cyfarpar diogelu personol

- Dylid cadw cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

- Mae angen cynnal ffeiliau'r staff, a rhaid iddynt gynnwys contractau cyflogaeth cyfredol wedi'u llofnodi, arfarniadau staff, a thystiolaeth o hyfforddiant a chynlluniau datblygiad personol

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Laffan Dental Care yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Coed-duon. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys saith deintydd, un hylenydd, un therapydd deintyddol, pum nyrs ddeintyddol, tair nyrs dan hyfforddiant, tri aelod o staff y dderbynfa, ac un rheolwr practis.

Mae’r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn credu bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn rhagorol.

Mae'r practis yn cynnal arolygon cleifion rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ond argymhellir gennym fod adborth yn cael ei roi i'r cleifion ar ganlyniad eu harolygon.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 30 o holiaduron. Roedd y rhan fwyaf o'r holiaduron a gafodd eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *Mae'r gofal a'r gwasanaeth a gynigir bob amser wedi bod o'r safon uchaf, a bob amser yn cael eu rhoi mewn modd cyfeillgar a chefnogol.*
>
> *Hapus iawn gydag ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.*
>
> *Practis gwych. Staff cyfeillgar sy'n gwneud i chi deimlo'n gysurus yn ystod triniaethau.*
>
> *Gwasanaeth effeithlon ac effeithiol bob amser. Gofal cwsmeriaid rhagorol.*

### Cadw'n iach

Gwelsom amrywiaeth o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa a'r mannau aros. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni ynghylch triniaethau a chyngor ataliol. Nododd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

Gwnaethom nodi nad oedd arwyddion "dim ysmygu" wedi'u harddangos yn y practis, ac argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos arwyddion "dim ysmygu" yn yr ardaloedd i gleifion.

## Gofal ag urddas

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn siarad â chleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn gwrtais ac yn foesgar.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd derbynfa a man aros ar y llawr daear a'r llawr cyntaf. Dywedodd y staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat â chlaf yn bersonol neu dros y ffôn, y gellid gwneud hyn yn swyddfa rheolwr y practis.

Canfuom fod gwybodaeth ysgrifenedig ac electronig am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu.

Roedd gan yr holl ystafelloedd triniaeth ddeintyddol ddrysau y gellid eu cau pan fo claf yn derbyn triniaeth, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pawb ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth (i’r graddau yr oeddent yn dymuno), ac roedd yr holl gleifion yn credu eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth.

Gwnaethom nodi bod y rhestr brisiau a oedd yn nodi costau triniaeth breifat wedi'i harddangos yn y ddwy dderbynfa. Dywedwyd wrthym mai dim ond cleifion y GIG sydd wedi'u heithrio rhag talu am driniaethau sy'n cael eu trin yn y practis, felly nid oedd angen rhestr brisiau ar gyfer triniaethau'r GIG.

Gwelsom fod manylion y deintyddion yn y practis ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y gallent bob amser siarad â staff yn eu hiaith ddewisol.

Mae gan y practis wefan sy'n cyd-fynd â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd yn cynnwys manylion y triniaethau deintyddol preifat y mae'n eu darparu, ynghyd â rhestr brisiau. Roedd hefyd yn darparu canllawiau ar wneud cwyn, manylion tîm y practis, yr oriau agor, a'r rhifau ffôn cyswllt y tu allan i oriau.

## Gofal amserol

Roedd oddeutu tri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn credu ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd 21 o'r 30 o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion ar sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos ar ffenestr flaen y practis ac wedi'u darparu ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn hysbysu'r claf a oedd yn aros pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dangosodd adolygiad o gofnodion cleifion fod cleifion yn cael eu holi am eu hanes meddygol ar adeg eu hymweliad.

Cadarnhaodd pob claf ond tri a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda iawn. Roedd dau fynediad.  Roedd un yn arwain at y dderbynfa ar y llawr daear, y man aros a dwy ystafell driniaeth ddeintyddol, gydag un o'r rhain yn cael ei defnyddio gan yr hylenydd. Gallai'r rhai hynny ag anawsterau symudedd gael mynediad at y rhain. Roedd gris yn

arwain i un o'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, a defnyddiai'r staff ramp cludadwy yn ôl yr angen.

Roedd yr ail fynedfa'n arwain cleifion yn syth i'r dderbynfa, y man aros a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr cyntaf.

Roedd toiled i'r anabl ar y llawr daear a oedd yn darparu cyfleusterau i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd mynediad da ato, ac roedd ganddo ganllawiau a oedd yn cynnig cymorth i gleifion yr oedd arnynt ei angen. Roedd larwm wedi'i osod yn y toiled hefyd. Roedd ail doiled i gleifion ar y llawr cyntaf.

Roedd gan y practis bolisïau cyfle cyfartal, preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd priodol ar waith.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwyno ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd y polisi'n cyd-fynd â phroses gwyno'r GIG, "Gweithio i Wella",[1] pan oedd hynny'n berthnasol, ac, o ran triniaeth ddeintyddol breifat, yn cyd-fynd â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.[2] Roedd y polisi wedi'i arddangos yn y derbynfeydd. Byddem yn cynghori'r practis i arddangos posteri “Gweithio i Wella” a sicrhau bod taflenni “Gweithio i Wella” ar gael.

Roedd y practis yn cadw ffolder gynhwysfawr a oedd yn cynnwys cofnodion o'r cwynion a oedd wedi dod i law ar lafar ac yn ysgrifenedig, y camau a gymerwyd a'r canlyniadau. Roedd rheolwr y practis wedi cynnwys adran gwersi a ddysgwyd yn y ffurflen gwyno, a gwnaethom sylwi bod hon bob amser wedi'i chwblhau.

[1] “Gweithio i Wella” yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/202/contents/made

Nid yw'r practis yn cofnodi unrhyw adborth anffurfiol, a byddem yn ei gynghori i roi proses ar waith i gofnodi unrhyw adborth anffurfiol a geir gan gleifion.

Mae'r practis yn cynnal arolygon cleifion bob chwarter. Caiff yr ymatebion eu dadansoddi gan reolwr y practis, sy'n sicrhau bod camau'n cael eu cymryd pan fo'n briodol. Awgrymir bod y practis yn rhoi adborth i'w gleifion ar ganlyniadau'r arolwg ac unrhyw gamau a gymerwyd.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Mae angen i'r practis gynnal asesiad risg o'r ffordd y caiff cofnodion papur eu storio a sut y caiff staff afael ar y rhain.

Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda, roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel, ac roedd tystiolaeth fod yr offer hyn yn cael eu cynnal a chadw'n rheolaidd ac yn barhaus.

Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod gweithdrefnau dadheintio a sterileiddio'n cael eu dilyn yn unol â chanllawiau.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae angen i'r practis sicrhau bod y rhain yn cael eu cadw gyda'i gilydd mewn lle diogel.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn ei farn ef, yn lân iawn. Roedd y tu allan i'r adeilad yn edrych fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân ar y cyfan, ond, ar adeg yr arolygiad, roedd ychydig o lwch ar rai arwynebau uchel ac ar un addurniad. Roedd offer a chyfarpar yn cael eu storio'n briodol. Gwelsom fod yr holl fannau cyhoeddus yn lân ac yn daclus.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad, a nodwyd bod y rhain wedi'u gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Gwnaethom sylwi bod un o'r diffoddwyr tân yn yr ystafell ddadheintio wedi'i dynnu oddi ar ei fachyn a'i roi ar y llawr er mwyn gwneud lle i'r bin gwastraff. Argymhellwn fod y bin yn cael ei symud a'r diffoddwr yn cael ei roi'n ôl ar y wal.  Gellid gweld cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys.

Mewn dwy ystafell driniaeth, roedd y biniau gwastraff clinigol wedi'u gosod ar bwys cadeiriau (a ddefnyddiwyd gan hebryngwyr neu rieni) ac argymhellwn fod y rhain yn cael eu symud.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a chael gwared ar wastraff peryglus (clinigol), gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) a gwastraff amalgam mewn ffordd ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau'r adegau y daw staff i gyswllt â sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio ar gyfer rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) a dalenni data diogelwch perthnasol, a oedd yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n "beryglus i'w cyflenwi" a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel. Gwelsom fod y rhestr wedi cael ei hadolygu ddiwethaf yn 2017.

Ar adeg ein hymweliad, roedd cyfleusterau i gael gwared ar gynhyrchion hylendid benywaidd yn y toiled ar y llawr daear ac yn y toiled i gleifion ar y llawr cyntaf, ond nid yn nhoiled y staff, a oedd hefyd ar y llawr cyntaf. Argymhellwn fod biniau hylendid benywaidd yn cael eu gosod ym mhob toiled.  Gwnaethom hefyd nodi bod potel o gannydd a photel o sebon hylif mewn cwpwrdd bychan yn nhoiled y cleifion ar y llawr daear y gallai cleifion gael gafael arnynt. Argymhellwn fod y rhain yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo.

Gwnaethom nodi bod clustogau ffabrig mewn dwy ystafell driniaeth, a chynghorir bod y practis yn datblygu protocol diheintio ar gyfer y rhain.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom bâr o sanau a oedd yn eiddo i aelod o'r staff clinigol yn eistedd ar stôl a chlocsiau wedi'u gadael ar y llawr mewn un ystafell driniaeth. Argymhellwn fod yr holl staff yn sicrhau bod eu dillad sbâr yn cael eu storio'n briodol.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nyrs yn ffeilio cofnodion. Er mwyn gwneud hyn, roedd yn rhaid iddi ddringo ysgol a oedd wedi'i gosod ar draws grisiau, ac nid

oedd unrhyw fecanweithiau diogelwch ar waith. Gwnaethom hefyd nodi bod biniau offer miniog a stoc wedi'u storio ar y grisiau hyn. Argymhellwn fod y practis yn cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch penodol ar gyfer yr ardal hon a'r defnydd o'r ysgol.

Roedd gan y practis bolisi adrodd ar ddamweiniau, a llyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR), a oedd yn cael ei gwblhau pan oedd damwain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod y diffoddwyr tân yn yr ystafell ddadheintio'n cael eu clymu'n sownd i'r wal.

Mae angen i'r practis sicrhau nad yw biniau gwastraff clinigol wedi'u gosod ar bwys cadeiriau cleifion neu hebryngwyr.

Dylai'r practis gael bin hylendid benywaidd ar gyfer toiled y staff.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl doddiadau glanhau yn cael eu storio mewn cwpwrdd diogel.

Rhaid i'r holl staff sicrhau bod eu dillad sbâr yn cael eu storio'n briodol.

Dylai'r practis gynnal asesiad risg iechyd a diogelwch penodol a chynhwysfawr ar storio a chael gafael ar gofnodion cleifion.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3] Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith, er nad oedd y rhain yn cael eu dilyn yn fanwl. Fel rhan o'r broses lanhau cyn-sterileiddio, gwelsom nad oedd nyrs yn mesur y dŵr a'r glanedydd yn unol â

[3] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn cyflwyno canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Gwelsom dystiolaeth fod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw ar wirio'r offer sterileiddio a bod polisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dadheintio. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom na wnaeth nyrs newid ei menig na defnyddio ffedog. Argymhellwn fod y staff yn adolygu'r canllawiau o ran defnyddio cyfarpar diogelu personol.

Gwnaethom nodi nad oedd yr holl offer a oedd yn cael eu storio yn yr ystafelloedd triniaeth yn cael eu rhoi mewn bag ar ôl eu dadheintio, ac argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni. Gwnaethom hefyd nodi fod blaenau chwistrell 3 mewn 1 yn cael eu defnyddio, a byddem yn cynghori'r practis i gyfeirio at y canllawiau cyfredol ac ystyried newid i flaenau untro.

Roedd un deintydd yn defnyddio bib amddiffynnol y gellir ei ailddefnyddio ar gleifion wrth ddarparu triniaeth. Argymhellwn fod hwn yn cael ei amnewid am fibiau untro.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ond, gan ystyried ein harsylwadau, argymhellwn fod archwiliad pellach yn cael ei gynnal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r holl staff sicrhau eu bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol wrth sterileiddio a dadheintio.

Dylai'r staff ddilyn canllawiau'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio glanedydd fel rhan o'r broses gyn-sterileiddio.

Dylai'r staff roi'r holl offerynnau mewn bagiau ar ôl eu dadheintio a chyn mynd â nhw i'r ystafelloedd triniaeth, a sicrhau bod dyddiad ar bob bag.

Dylai'r practis ddefnyddio bibiau amddiffynnol untro ar gleifion ym mhob ystafell driniaeth.

Mae angen i'r practis gynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac anfon y canlyniadau at Ddeoniaeth Cymru i'w dadansoddi a rhoi sylwadau arnynt.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi dadebru. Roedd gweithdrefnau hefyd ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion, ac, ar wahân i un deintydd ac un

therapydd, roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio dadebru cardio-pwlmonaidd. Dywedwyd wrthym fod lle wedi'i gadw i'r therapydd ar gwrs. Roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf penodedig. Argymhellwn fod y practis yn ystyried hyfforddi ail aelod o staff mewn cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod swyddog ar gael ar bob adeg.

Roedd gan y practis y cyffuriau a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru’r DU.[4] Roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel yn swyddfa rheolwr y practis, ond storiwyd rhai elfennau ar wahân, felly nid oeddent yn hygyrch iawn. Argymhellwn fod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio mewn un cynhwysydd/bag er mwyn gallu cael gafael arnynt yn hawdd. Roedd bocs cymorth cyntaf yn ardal y staff hefyd.

Roedd y tanc ocsigen hefyd yn cael ei storio yn swyddfa rheolwr y practis. Er bod sticer yn rhybuddio pobl fod tanc yma, roedd ar ddrws y cwpwrdd, ac nid oedd hyn yn gywir. Argymhellwn fod y sticer yn cael ei symud i du blaen drws y swyddfa.

Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau ac offer brys yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio. Serch hyn, gwnaethom nodi yn ystod yr arolygiad fod dyddiad un ffiol o doddiant halen a oedd yn y bocs cymorth cyntaf yn ardal y staff wedi dod i ben.  Tynnwyd hon allan ar unwaith.

Nid oedd pob bin offer miniog yn yr ystafelloedd triniaeth wedi'i osod yn sownd i'r wal, ac argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni.

Gwnaethom nodi hefyd fod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel.

[4] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff dystysgrifau cyfredol ar gyfer hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd priodol.

Mae angen i'r practis wirio'r bocsys argyfwng a chymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r holl gyffuriau ac offer yn parhau i fod yn gyfredol.

Dylai'r practis storio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys mewn un cynhwysydd/bag er mwyn gallu cael gafael arnynt yn hawdd.

Dylai'r practis osod y sticer "ocsigen yn bresennol" ar du blaen y drws i'r swyddfa.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y biniau offer miniog wedi'u gosod ar waliau pob ystafell driniaeth.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd yr holl staff, heblaw am staff y dderbynfa, wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r holl staff gwblhau hyfforddiant perthnasol ar amddiffyn oedolion agored i niwed ac amddiffyn plant.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd ardaloedd a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X yn

cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Cedwid ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[5] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[6]

Ar ddiwrnod yr ymweliad, gwnaethom sylwi nad oedd arwyddion rhybuddio rhag ymbelydredd priodol ar ddrysau dwy ystafell driniaeth. Argymhellir gennym fod hyn yn cael ei unioni.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd dogfennaeth i ddangos bod y cywasgwyr yn cael eu gwirio bob dydd, felly argymhellwn fod y practis yn defnyddio rhestr wirio i gadw a chofnodi'r gwiriadau sy'n cael eu gwneud.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos arwyddion rhybuddio rhag ymbelydredd ar ddrysau pob ystafell driniaeth.

Dylai'r practis gyflwyno rhestr wirio i gadarnhau bod y cywasgwyr yn cael eu gwirio bob dydd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu'n barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen o archwiliadau ar waith, gan gynnwys archwiliad o gofnodion clinigol, defnyddio

[5] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[6] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

offer pelydr-X yn ddiogel, ac archwiliad o reolaeth y practis ac o’r gweithdrefnau brys.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Mae'r deintyddion a'r nyrsys deintyddol yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol ar wahân at ddibenion adolygiadau gan gymheiriaid. Argymhellwn fod y rhain yn cael eu cofnodi er mwyn nodi'r materion a drafodwyd a'r camau gweithredu cytunedig.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried gwneud cais am offeryn datblygu practis Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.[7] Offeryn datblygu tîm practis deintyddol yw offeryn y Matrics Aeddfedrwydd ac mae'n caniatáu i'r tîm ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig a phapur, a gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r ffeiliau electronig yn cael ei greu'n rheolaidd.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd eithaf da. Canfuom mewn rhai achosion nad oedd cyfiawnhad dros ddefnyddio offer pelydr-X a graddio’r delweddau, ac nid oedd hyn yn unol â'r canllawiau cyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi'r cyfiawnhad dros ddefnyddio offer pelydr-X a graddio’r delweddau.

---

[7] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da.

Roedd gan y practis amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith a oedd yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Roedd angen i'r practis gynnal ffeiliau staff a sicrhau eu bod yn cynnwys contractau cyflogaeth cyfredol wedi'u llofnodi, arfarniadau staff, a thystiolaeth o hyfforddiant a chynlluniau datblygiad personol.

Er bod gan y practis raglen o gyfarfodydd ac arfarniadau staff, byddem yn ei argymell i roi proses ar waith i gofnodi cyfarfodydd ac arfarniadau staff.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Laffan Dental Care yn eiddo i'r ddau brif ddeintydd. Rheolwr y practis sy'n cyflawni'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a bod yr holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Gwnaethom nodi'r amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau a oedd ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom dystiolaeth fod y polisïau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn gan un o'r prif ddeintyddion. Argymhellwn fod y practis yn gwneud darpariaeth i'r staff ddangos eu bod wedi darllen a deall y polisïau.

Roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yr yswiriant indemniad priodol. Gwelsom fod tystysgrif gofrestru'r practis wedi'i harddangos yn glir yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis hefyd wedi'i harddangos.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r staff wneud darpariaeth i'r staff ddangos eu bod wedi darllen polisïau a gweithdrefnau'r practis.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis, a gwelsom berthynas gref rhwng holl staff y practis.

Gwnaethom nodi nad oedd ffeiliau ar gyfer pob aelod o staff ac, o'r rhai hynny a welwyd gennym, dim ond un oedd â chontract cyflogaeth wedi'i lofnodi. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cadw'r rhain. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod yr holl staff wedi llofnodi contractau cyflogaeth a bod copïau ohonynt yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y practis raglen ymsefydlu ar waith ond nid oedd wedi'i chofnodi'n llawn. Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen ymsefydlu ac adolygu gadarn ar waith, a ddangosir mewn rhestr wirio. Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff rheolaidd yn cael eu cynnal, ond nid oedd y ddogfennaeth yn cofnodi unrhyw drafodaeth nac amcanion cytunedig ar gyfer y dyfodol. Argymhellwn y dylid cofnodi ac arwyddo trafodaethau yn ystod arfarniadau staff fel cofnod cytunedig o'r arfarniad, gan ganiatáu ar gyfer pwyntiau adolygu ac asesiad o gynnydd.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus, ond roedd rhai eithriadau, fel a ganlyn: tystiolaeth o hyfforddiant diogelu ar gyfer dau aelod o staff y dderbynfa; hyfforddiant ar reoli heintiau ar gyfer un therapydd a thri deintydd. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at yr holl hyfforddiant perthnasol a'u bod yn cwblhau'r hyfforddiant hwn er mwyn eu galluogi i fodloni gofynion eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedodd nyrs y practis wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd ar wahân ar gyfer deintyddion, nyrsys deintyddol a staff anghlinigol. Gwelsom gofnodion a oedd yn ymwneud â chyfarfodydd y staff anghlinigol. O ran cyfarfodydd y staff clinigol, roedd y rhain yn anffurfiol ac nid oeddent yn cael eu cofnodi. Caiff cyfarfodydd practis eu cynnal pan fydd pawb ynghyd i gael hyfforddiant yn unig,

e.e. diogelu ac adfywio cardio-pwlmonaidd, ac ni chaiff y rhain eu cofnodi. Rydym yn argymell bod yr holl gyfarfodydd staff yn cael eu cofnodi er mwyn dangos unrhyw drafodaeth a chamau gweithredu cytunedig.

Mae'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat yn gofyn i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru gael tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf ar adeg cofrestru. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar staff clinigol a staff anghlinigol. Nid oedd y therapydd deintyddol yn gallu darparu ei dystysgrif. Argymhellwn fod y practis yn cadarnhau bod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau. Gwnaeth y practis ddarparu tystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff gontractau cyflogaeth wedi'u llofnodi a bod copïau o'r rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Dylai'r practis roi rhaglen ymsefydlu ac adolygu gadarn ar waith, a sicrhau ei bod yn cael ei chofnodi.

Dylai'r practis sicrhau bod trafodaethau yn ystod arfarniadau staff yn cael eu cofnodi a'u llofnodi fel cofnod cytunedig o'r arfarniad.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at yr holl hyfforddiant perthnasol a'u bod yn cwblhau'r hyfforddiant hwn er mwyn eu galluogi i fodloni gofynion eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Dylai'r practis gofnodi'r holl gyfarfodydd staff er mwyn dangos unrhyw drafodaeth a phwyntiau gweithredu cytunedig.

Mae angen i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC o wiriad y therapydd deintyddol gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy’n dweud wrthym am y camau brys mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i’r afael â hwy

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd o arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y bo deintyddiaeth breifat yn cael ei darparu, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Laffan Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 4 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle'r oedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Laffan Dental Care

### Dyddiad yr arolygiad: 4 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis arddangos arwyddion "dim ysmygu" yn yr ardaloedd i gleifion. | 1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd | Mae arwyddion dim ysmygu'n bresennol bellach<br>ym mhob ardal i gleifion. | Sue Thompson | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen i'r practis sicrhau bod y diffoddwyr tân yn yr ystafell ddadheintio'n cael eu clymu'n sownd i'r wal. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Mae'r diffoddydd tân wedi'i glymu i'r wal bellach. | Sue Thompson | Cwblhawyd |
| Mae angen i'r practis sicrhau nad yw biniau gwastraff clinigol wedi'u gosod ar bwys cadeiriau | | Oherwydd y prinder lle yn yr ystafelloedd triniaeth a amlygwyd, | Sue Thompson | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cleifion neu hebryngwyr. | | rydym wedi cael gwared ar<br>gadeiriau i hebryngwyr. | | |
| Dylai'r practis gael bin hylendid benywaidd ar gyfer toiled y staff. | | Rydym wedi cysylltu â'n darparwr gwasanaeth,<br>Professional Hygiene, ac yn aros iddo gael ei gludo. | Sue Thompson | Un mis |
| Dylai'r practis sicrhau bod yr holl doddiadau glanhau yn cael eu storio mewn cwpwrdd diogel. | | Mae'r holl doddiadau glanhau'n cael eu storio mewn cwpwrdd diogel bellach. | Sue Thompson | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r holl staff sicrhau bod eu dillad sbâr yn cael eu storio'n briodol. | | Mae mwy o fannau storio a bachau wedi'u darparu. | Sue Thompson | Cwblhawyd |
| Dylai'r practis gynnal asesiad risg iechyd a diogelwch penodol a chynhwysfawr ar storio a chael gafael ar gofnodion cleifion. | | Mae'r asesiad risg wedi'i gwblhau ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r archwiliad diogelwch ysgol sydd wedi'i wneud ar gofnodion ac nid yw'r silffoedd uchaf yn cael eu defnyddio mwyach. | Sue Thompson | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r holl staff sicrhau eu bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol wrth sterileiddio a dadheintio. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Holl staff wedi cwblhau cwrs croes-heintio ar 27 Mehefin a gweithdrefnau wedi'u hatgyfnerthu. | Sue Thompson | Cwblhawyd ac yn parhau |
| Dylai'r staff ddilyn canllawiau'r gwneuthurwr wrth | | Ymdriniwyd â hyn ar ein cwrs croes- | Sue Thompson | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ddefnyddio glanedydd fel rhan o'r broses gyn-sterileiddio. | | heintio. Hyfforddiant wedi'i ddiweddaru a pholisïau a gweithdrefnau wedi'u llofnodi a'u dyddio. | | ac yn parhau |
| Dylai'r staff roi'r holl offerynnau mewn bagiau ar ôl eu dadheintio a chyn mynd â nhw i'r ystafelloedd triniaeth, a sicrhau bod dyddiad ar bob bag. | | Caiff offer eu rhoi mewn bagiau yn ardal lân yr ystafell driniaeth. | Sue Thompson | Parhaus |
| Dylai'r practis ddefnyddio bibiau amddiffynnol untro ar gleifion ym mhob ystafell driniaeth. | | Mae bibiau nad ydynt yn rhai untro wedi'u symud o bob ystafell driniaeth. | Sue Thompson | Cwblhawyd |
| Mae angen i'r practis gynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac anfon y canlyniadau at Ddeoniaeth Cymru i'w dadansoddi a rhoi sylwadau arnynt. | | Mae hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd. | Sue Thompson | Yn parhau<br>Un mis |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff dystysgrifau cyfredol ar gyfer hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd priodol. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae lle wedi'i gadw i'r staff ar gwrs adfywio cardio-pwlmonaidd cyn ein cwrs practis blynyddol ar 5 Rhagfyr. | Sue Thompson | Cwblhawyd |
| Mae angen i'r practis wirio'r bocsys argyfwng a chymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r holl gyffuriau ac offer yn parhau i | | Mae hyn wedi cael sylw bellach a system newydd wedi'i rhoi ar waith y mae'r holl staff yn ymwybodol ohoni, ac mae'r polisi wedi'i ddiwygio a'i lofnodi | Sue Thompson | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| fod yn gyfredol. | | gan staff. | | |
| Dylai'r practis storio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys mewn un cynhwysydd/bag er mwyn gallu cael gafael arnynt yn hawdd. | | Rydym wrthi'n chwilio am fag addas. | Sue Thompson | Dau fis |
| Dylai'r practis osod y sticer "ocsigen yn bresennol" ar du blaen y drws i'r swyddfa. | | Sticer ar y drws nawr. | Sue Thompson | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod y biniau offer miniog wedi'u gosod ar waliau pob ystafell driniaeth. | | Wrthi'n gosod yr holl finiau offer miniog ar waliau. | Sue Thompson | Dau fis |
| Dylai'r holl staff gwblhau hyfforddiant perthnasol ar amddiffyn oedolion agored i niwed ac amddiffyn plant. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | Angen dod o hyd i gwrs a bydd yr holl staff yn ei gwblhau. | Sue Thompson | Tri mis |
| Dylai'r practis arddangos arwyddion rhybuddio rhag ymbelydredd ar ddrysau pob ystafell driniaeth. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Arwyddion wedi'u harchebu a byddant yn cael eu gosod ar ddrysau'r ystafelloedd triniaeth. | Sue Thompson | Cwblhawyd |
| Dylai'r practis gyflwyno rhestr wirio i gadarnhau bod y cywasgwyr yn cael eu gwirio bob dydd. | | Gwasanaeth wedi'i drefnu a byddwn yn gofyn i'r peiriannydd pa wiriadau sydd angen eu cwblhau. | Sue Thompson | Dau fis |
| Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod | 3.5 Cadw cofnodion | Mae'r holl ddeintyddion wedi archwilio a myfyrio ar y cofnodion a'r adroddiadau y | Sue Thompson | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi'r cyfiawnhad dros ddefnyddio offer pelydr-X a graddio'r delweddau. | | maen nhw'n eu cadw ar belydrau-X er mwyn sicrhau gwelliant a bod y safonau gofynnol yn cael eu gorfodi. | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r staff wneud darpariaeth i'r staff ddangos eu bod wedi darllen polisïau a gweithdrefnau'r practis. | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Staff i lofnodi polisïau a gweithdrefnau unigol, a phan fydd polisïau yn cael eu diweddaru. | Sue Thompson | Yn parhau |
| Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff gontractau cyflogaeth wedi'u llofnodi a bod copïau o'r rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. | 7.1 Gweithlu | Mae ffeiliau a chontractau'r staff yn cael eu llunio ar hyn o bryd, a'r holl ddogfennaeth yn cael ei storio mewn ffeil ddiogel. | Sue Thompson | Dau fis |
| Dylai'r practis roi rhaglen ymsefydlu ac adolygu gadarn ar waith, a sicrhau ei bod yn cael ei chofnodi. | | Bydd hon ar waith bellach ar gyfer pob aelod newydd o staff, a bydd yn cael ei chofnodi a'i chadw yn ffeiliau'r staff. | Sue Thompson | Yn parhau |
| Dylai'r practis sicrhau bod trafodaethau yn ystod arfarniadau staff yn cael eu cofnodi a'u llofnodi fel cofnod cytunedig o'r arfarniad. | | Bydd hyn yn cael ei wneud yn ystod yr arfarniad nesaf.<br>Wedi'u cofnodi a'u cadw yn ffeiliau'r staff. | Sue Thompson | Yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at yr holl hyfforddiant perthnasol a'u bod yn cwblhau'r hyfforddiant hwn er mwyn eu galluogi i fodloni gofynion eu datblygiad proffesiynol parhaus. | | Darperir hyfforddiant mewnol ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol. Staff i sicrhau eu bod i gyd yn mynychu neu bydd angen dod o hyd i gyrsiau eraill. | Sue Thompson | Yn parhau |
| Dylai'r practis gofnodi'r holl gyfarfodydd staff er mwyn dangos unrhyw drafodaeth a phwyntiau gweithredu cytunedig. | | Cytunwyd ar gynnal cyfarfod staff bob tri mis, a bydd y rhain yn cael eu cofnodi ac unrhyw bwyntiau yn cael sylw. | Sue Thompson | Yn parhau |
| Mae angen i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC o wiriad y therapydd deintyddol gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | | Therapydd deintyddol wrthi'n ailymgeisio am dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Sue Thompson | Un mis |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras): Sue Thompson

## Swydd: Rheolwr y practis

## Dyddiad: 10 Gorffennaf 2018